Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Polisi Recordio Sesiynau a Gweithgareddau Addysgol

2025/26

**Cynnwys**

1 Cyflwyniad ..... 2
2 Diben a Chwmpas ..... 2
3 Disgwyliadau ..... 3
4 Polisi - Recordio Sesiynau Addysgol gan staff ..... 3
5 Polisi - mathau o recordio ..... 5
6 Polisi - Recordio Sesiynau Addysgol Cydamserol gan Fyfyrwyr ..... 5
7 Diogelu Data ..... 7
8 Eiddo Deallusol ..... 8
9 Storio, Cadw ac Argaeledd Cynnwys ..... 8
10 Golygu a Thynnu'n Ôl ..... 9
11 Hygyrchedd ..... 9
12 Atodiad A ..... 10
12.1 Canllawiau i staff - Recordio sesiynau a gweithgareddau addysgol gan fyfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu penodol. ..... 10
12.2 Y Broses ..... 10
13 Atodiad B ..... 12
13.1 Canllawiau i fyfyrwyr ag anableddau, cyflyrau iechyd neu anawsterau dysgu penodol: recordio sesiynau a gweithgareddau addysgol ..... 12

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Polisi'r Brifysgol ar recordio sesiynau a gweithgareddau addysgol.

1.2 Mae defnyddio meddalwedd recordio, dyfeisiau symudol a galluoedd amlgyfrwng yn trawsnewid y defnydd o gyfryngau sain a fideo at ddibenion addysgol, ac mae recordio gweithgareddau addysgol bellach yn gyffredin ar draws prifysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir am addysgu a dysgu ar-lein. Mae'r Brifysgol yn argymell y dylid recordio sain o leiaf ar gyfer sesiynau a gweithgareddau addysgol.

1.3 Mae recordio gweithgareddau addysgol (e.e. darlithoedd, seminarau, tiwtorialau) yn rhoi adnodd defnyddiol i fyrfyfyr a staff. Mae darparu cynnwys wedi'i recordio yn allweddol i wella hyblygrwydd a hygyrchedd i fyfyrwyr, sy'n egwyddorion hanfodol o Fframwaith Dysgu Gweithredol y Brifysgol. Yn ogystal â bodloni gofynion y Fframwaith Dysgu Gweithredol, mae sawl mantais i recordio sesiynau:

- Darparu cymorth astudio ar gyfer adolygu sesiynau a gweithgareddau.
- Cynorthwyo i gyflwyno gweithgareddau addysgu a dysgu.
- Gall ddarparu'n ddigidol yr hyn sy'n gyfwerth â gweithgareddau addysgu wyneb yn wyneb.
- Cynnig profiad cymharol i bob myfyriwr, waeth beth fo'u hamgylchiadau.
- Cynorthwyo myfyrwyr nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf.
- Cynorthwyo myfyrwyr ag anghenion cymorth ychwanegol.
- Caniatáu mynediad i ddeunyddiau yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg.
- Darparu sesiynau a gweithgareddau addysgol y gellir eu cynnal ar-lein.
- Ymarferoldeb - y gallu i oedi, ailadrodd neu ailymweld â deunydd dysgu cymhleth.
- Cynyddu ymgysylltiad gan fyfyrwyr.

1.4 Nid oes dim yn y Polisi hwn i fod i wrthdaro â rhyddid academaidd aelodau staff.

## 2 Diben a Chwmpas

2.1 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod yna ddull cyson a chyfrifol o ymdrin â phob sesiwn a gweithgaredd recordio sesiynau a gweithgareddau gan aelodau staff Prifysgol Wrecsam, gan ystyried yr agweddau addysgeg, cyfreithiol, hygyrchedd, eiddo deallusol a diogelu data. Ei nod yw darparu eglurder ar hawliau a disgwyliadau'r Brifysgol, ei staff a myfyrwyr a thrydydd parti.

2.2 Mae 'Sesiynau a Gweithgareddau Addysgol' yn ymwneud ag unrhyw sesiwn a gynhyrchir gyda'r bwriad o gael ei ddefnyddio er budd uniongyrchol dysgu a datblygu myfyrwyr. Gall hyn gynnwys adnoddau a gynhyrchir gan dimau academaidd, gwasanaethau proffesiynol a myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam, ac mae hefyd yn cynnwys siaradwyr allanol.

2.3 Anogir staff partner a myfyrwyr i ddilyn y polisi hwn yn unol â'r Fframwaith Dysgu Gweithredol a defnyddio'r offer digidol a ddarperir gan y Brifysgol i hwyluso'r recordio. Fel arfer, dylent lynu wrth ofynion y polisi wrth recordio neu wrth gael mynediad at recordiadau a ddarperir gan y Brifysgol.

## 3 Disgwyliadau

3.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod:

- Y gallai gofyn i staff newid eu hoff arddull addysgu at ddiben y recordiad fod yn niweidiol i brofiad y myfyrwyr ac nid yw'n cael ei annog, gweler hefyd 1.4.
- Bod rhesymau cyfiawn pam nad yw recordio'n bosibl. Er enghraifft, efallai na fydd yn bosibl recordio gweithgareddau addysgu a dysgu sy'n cynnwys neu'n defnyddio deunydd sensitif. Dylai darlithwyr a Staff Gwasanaethau Proffesiynol fod yn ymwybodol o Ddeddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, y Ddeddf Cydraddoldeb a materion moesegol a dylent allu cyfiawnhau pam na ellir defnyddio recordio.
- Dylai aelodau o staff ei gwneud hi'n glir i fyfyrwyr bod ffrydio'n fyw neu recordio yn digwydd ar ddechrau unrhyw recordiad.

## 4 Polisi - Recordio Sesiynau Addysgol gan staff

4.1 Mae'r polisi isod yn ymwneud â sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw (anghydamserol) a sesiynau wedi'u recordio'n fyw (cydamserol). Bydd unrhyw wahaniaethau pwysig yn cael eu gwneud yn glir. Dylid nodi bod sesiynau cydamserol yn cynnwys addysgu wyneb yn wyneb a chyflwyno 'byw' ar-lein.

4.2 Dylai darlithwyr, tiwtoriaid, technegwyr/arddangoswyr a Staff Gwasanaethau Proffesiynol ddefnyddio meddalwedd recordio'r Brifysgol (Panopto) i ddarparu recordiadau o'u sesiynau i fyfyrwyr. Dylid darparu capsiynau o gynnwys fideo i fyfyrwyr yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus 2018, Safonau'r Iaith Gymraeg a Deddf Diogelu Data/GDPR y DU. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall Llawlyfr Gwybodaeth Staff Llywodraethu ac e-bost a anfonwyd at eich rheolwr llinell i gadarnhau'r safbwynt hwnnw. Mae canllawiau ymarferol ar ychwanegu capsiynau ar gael ar yr Hwb Dysgu Digidol.

4.3 Darperir recordio darlithoedd ar gyfer sesiynau cydamserol i ategu profiad addysgol y myfyrwyr ac nid i ddisodli oriau ymgysylltu myfyrwyr. Fodd bynnag, mae sesiynau anghydamserol wedi'u cynllunio yn gyfraniad dilys ar oriau ymgysylltu myfyrwyr.

4.4 Dim ond drwy'r VLE y bydd recordiadau ar gael ac felly byddant wedi'u diogelu gan gyfrinair. Felly dim ond myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y modiwl perthnasol neu staff y Brifysgol sydd â mynediad awdurdodedig fydd yn gallu cael mynediad at y recordiad. Dylai staff wneud cais i'r tîm Dysgu Digidol i sicrhau bod y recordiad ar gael i gynulleidfa ehangach (er enghraifft, myfyrwyr ar fodiwlau eraill), ac os yw recordiadau'n cynnwys myfyrwyr, dim ond os bydd yr holl fyfyrwyr hynny'n rhoi caniatâd ysgrifenedig y byddai'r cais hwn fel arfer yn cael ei ganiatáu. Dylai'r dolenni a ddarperir i gael mynediad at y fideo fodloni'r meini prawf uchod.

4.5 Ac eithrio lle mae'r Brifysgol wedi awdurdodi hynny, ni ddylid defnyddio recordiadau a sesiynau addysgol a gweithgareddau dysgu grŵp y Brifysgol ar gyfer y cyhoedd mewn unrhyw ffordd, yn cynnwys drwy gyhoeddiad allanol, boed ar y we neu beidio. Ni ddylid copïo na throsglwyddo recordiadau o'r fath i unrhyw un arall, ac eithrio at ddibenion trawsgrifio. Dylai staff fod yn ymwybodol o'u cytundeb cyflogaeth ac unrhyw oblygiadau o'r fath o dorri cytundeb.

4.6 Yn unol â chytundeb cyflogaeth academaidd y Brifysgol, bydd yr hawlfraint mewn deunyddiau cwrs a gynhyrchir gan aelod o staff academaidd wrth gyflawni eu cyflogaeth at ddibenion cwricwlwm cwrs a gynhelir gan y Brifysgol ac a gynhyrchir, a ddefnyddir neu a rennir gan y Brifysgol yn eiddo i'r Brifysgol.

4.7 Ni fydd recordiadau'n cael eu defnyddio at ddibenion rheoli perfformiad staff nac i gymryd lle addysgu. Gellir eu defnyddio ar gyfer adolygu addysgu gan gymheiriaid, lle cytunir ar hyn rhwng y tiwtor a'r arsylwr.

4.8 Cedwir recordiadau a wneir gan y Brifysgol am gyfnod o chwe blynedd ar y mwyaf o ddyddiad y recordiad. Dim ond i recordiadau a gynhyrchwyd gan diwtoriaid a samplau asesu y mae hyn yn berthnasol.

4.9 Ar gyfer sesiynau cydamserol, rhaid i Ddarlithwyr hysbysu eu myfyrwyr drwy'r Rhith-amgylchedd Dysgu neu ar lafar cyn dechrau pob sesiwn y dylid ei recordio.

4.10 Rhaid i staff gydymffurfio bob amser â deddfwriaeth hawlfraint a fe'u hanogir i ddefnyddio cynnwys *creative commons* yn eu darlithoedd. Cynghorir staff i gysylltu â'r adran Dysgu a Chymorth Digidol os oes angen cyngor arnynt ar hyn.

4.11 Mae systemau recordio darlithoedd yn dueddol o fethu oherwydd gwallau system, offer neu ddefnyddiwr ar adegau. Bydd staff Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn anelu at sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio fel y cynlluniwyd. Rhaid i ddefnyddwyr y system sylweddoli pan fydd problem gwasanaeth yn digwydd nad yw bob amser yn bosibl ymateb a datrys digwyddiadau gwasanaeth o fewn cyfnod y dosbarth/darlith. Dylai staff roi gwybod am bob nam/problem gyda system recordio darlithoedd gofod dysgu cyn gynted â phosibl trwy Borth Desg Gwasanaeth Inform neu drwy ffonio'r ddesg wasanaeth 01978 293241.

4.12 Cyn defnyddio'r feddalwedd recordio, dylai defnyddwyr sicrhau eu bod wedi darllen Llawlyfr Staff Llywodraethu Gwybodaeth, wedi cwblhau modiwl(au) hyfforddi GDPR y Brifysgol ac wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol a ddarperir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth sydd ar gael drwy'r Hwb Dysgu Digidol. Os yw'r recordiad yn digwydd yn ffisegol mewn ystafell ddosbarth; efallai y bydd angen i'r defnyddiwr hefyd ymgynghori â'r Gwasanaethau TG am hyfforddiant a chymorth gyda'r offer sydd ar gael.

4.13 Dylai aelod o staff sy'n dod yn ymwybodol y gallai recordiad gynnwys deunydd ffug, enllibus neu sy'n torri hawlfraint hysbysu Pennaeth Rheolaeth busnes y Gyfadran a Chyfreithiwr y Brifysgol heb oedi diangen, drwy e-bost: legal@wrexham.ac.uk neu ffonio: 01978293235. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu recordiad yn ôl neu ei olygu os oes angen. Os yw aelod staff yn pryderu am ei ddeunydd ei hun, dylai geisio cyngor pellach gan Gyfreithiwr y Brifysgol.

4.14 Ar ôl gadael cyflogaeth yn y Brifysgol, ni fydd gan gyn-weithwyr yr hawl i ddefnyddio unrhyw recordiadau y mae'r Brifysgol yn berchen ar hawliau Eiddo deallusol ynddynt, oni bai bod caniatâd ysgrifenedig Dirprwy Is-ganghellor y Brifysgol wedi'i gael yn gyntaf. Bydd gan y Brifysgol yr hawl i barhau i ddefnyddio recordiadau ar ddibenion y Polisi hwn.

4.15 Dim ond ar ddibenion addysgol y dylai copïo a dosbarthu recordiadau fod ar gael i fyfyrwyr ac ni ddylid eu cyhoeddi ar unrhyw lwyfannau nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Brifysgol. Er enghraifft, ni ddylid uwchlwytho recordiadau i YouTube, cyfryngau cymdeithasol na llwyfannau eraill sydd ar gael yn gyhoeddus heb gymeradwyaeth y Dirprwy Is-ganghellor.

4.16 Ni chaiff aelod o staff uwchlwytho recordiadau sy'n cynnwys aelodau staff eraill, myfyrwyr na siaradwyr gwadd i offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol na defnyddio recordiadau i glonio llais a/neu ddelweddau o bobl eraill.

4.17 Mae canllawiau i staff ar ganiatáu i fyfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu penodol recordio darlithoedd wedi'u nodi yn Atodiad A.

## 5 Polisi - mathau o recordio

5.1 Gellir gwneud recordiadau o wahanol fathau o weithgaredd a gall gynnwys; darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, sesiynau ymarferol, perfformiadau a chyflwyniadau.

5.2 Efallai y byddai'n briodol recordio tiwtorialau 1 i 1 staff:myfyriwr. Dylid rhannu'r recordiadau'n ddiogel (e.e. yn defnyddio Panopto) a hynny rhwng yr unigolion sy'n bresennol yn y tiwtorial yn unig.

5.3 Dim ond gyda staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol perthnasol sydd eu hangen ar gyfer marcio, neu gydag arholwyr allanol perthnasol y dylid rhannu deunydd wedi'i recordio sy'n waith wedi'i asesu. Gall myfyrwyr ofyn am fynediad at recordiadau a ddefnyddir ar gyfer eu hasesiad, am hyd at bum mlynedd ar ôl uwchlwytho recordiadau, am reswm cadarn.

## 6 Polisi - Recordio Sesiynau Addysgol Cydamserol gan Fyfyrwyr

6.1 Yn unol ag egwyddorion y Fframwaith Dysgu Gweithredol, mae recordio sesiynau gan staff yn ddiofyn. O ganlyniad, ni ddylai fod angen i fyfyrwyr wneud eu recordiad eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei dyletswydd dan ddeddf cydraddoldeb 2010 (sy'n ymgorffori'r hen Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd) i wneud addasiadau rhesymol priodol ar gyfer myfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu penodol (megis dyslecsia) er mwyn gwrthweithio unrhyw rwystrau sylweddol y gallent eu hwynebu oherwydd eu hanawsterau.

6.2 Felly, gellir gwneud argymhelliad i fyfyriwr ag anghenion wedi'u hasesu recordio darlithoedd a thiwtorialau fel addasiad rhesymol drwy'r Tîm Cynhwysiant neu Ganolfan Asesu Anghenion Astudio DSA cofrestredig. Gall staff academaidd weld addasiadau rhesymol myfyrwyr unigol lle mae argymhellion wedi'u gwneud iddynt wneud eu recordiad sain eu hunain ar system E-Vision y Brifysgol. Mae Atodiad A yn cynnwys canllawiau pellach i staff mewn perthynas â

myfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu penodol sy'n cofnodi sesiynau a gweithgareddau addysgol.

6.3 Lle nad yw recordio'n bosibl oherwydd cyfrinachedd neu resymau a restrir yn adran 2, bydd y darlithydd yn darparu dulliau cymorth eraill (mae enghreifftiau ar gael yn Atodiad A)

6.4 Dim ond i un person y gellir trosglwyddo recordiadau myfyrwyr i'w trawsgrifio a rhaid i'r person hwnnw eu dychwelyd neu eu dinistrio ar ôl i'r trawsgrifiad ddigwydd. Caniateir i fyfyrwyr hefyd ddefnyddio unrhyw strategaethau technoleg gynorthwyol a argymhellir gan y tîm Gwasanaethau Cynhwysiant neu Ganolfan Asesu Anghenion Asesu DSA gofrestredig. Gall hyn gynnwys meddalwedd trawsgrifio, yn cynnwys offer Deallusrwydd Artiffisial fel Otter AI, ond at ddibenion trawsgrifio yn unig.

6.5 Dim ond at ddibenion astudiaeth bersonol y myfyriwr y caniateir defnyddio pob recordiad o sesiynau addysg ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu gan fyfyrwyr unigol.

6.6 Ni chaniateir i fyfyrwyr:

- Recordio dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth heb addasiad rhesymol ar gyfer anabledd neu angen sy'n gysylltiedig ag iechyd sydd wedi'i gofnodi ar system E-Vision y Brifysgol drwy'r Tîm Cynhwysiant. Os nad oes addasiad rhesymol wedi'i recordio, yna dylid ceisio caniatâd y darlithydd i recordio a dylid defnyddio barn academyddion ynghylch a ddylid caniatáu i recordio ddigwydd.
- Recordio gweithgareddau dysgu ac addysgu ystafell ddosbarth ar ran unrhyw un arall.
- Pasio unrhyw recordiadau i unrhyw berson arall mewn unrhyw fodd, yn cynnwys dosbarthu drwy e-bost, ac eithrio at ddibenion trawsgrifio yn unig.
- Cyhoeddi, dosbarthu, darlledu neu werthu unrhyw recordiadau ar unrhyw ffurf (mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhyngrwyd a chyhoeddi copi caled).
- Uwchlwytho recordiadau i offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, oni bai eu bod wedi'u hargymell yn benodol fel offer trawsgrifio neu gynorthwyol drwy Asesiad Anghenion Astudio DSA neu dîm Gwasanaethau Cynhwysiant y Brifysgol. Ni ddylent ddefnyddio recordiadau i glonio llais a/neu ddelwedd o aelodau staff y brifysgol, myfyrwyr neu siaradwyr gwadd.

6.7 Gall unrhyw fyfyriwr sy'n torri unrhyw un o'r uchod fod yn destun camau disgyblu dan y Polisïau Disgyblu Myfyrwyr a/neu'r Polisïau Diogelu Data, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

6.8 Gall myfyrwyr gadw recordiadau o weithgareddau dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth am hyd eu rhaglen astudio, ac ar ôl hynny dylid eu dinistrio yn unol â gwaredu gwastraff cyfrinachol yn ddiogel

6.9 Ni ddylid ailddosbarthu recordiadau myfyrwyr mewn unrhyw ffordd, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, uwchlwytho i wefan, blog, neu unrhyw sianel cyfryngau cymdeithasol neu ddosbarthu e-bost heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan bob parti a oedd yn bresennol yn y recordiad.

6.10 Ni fydd recordiadau myfyrwyr yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth mewn perthynas â chwynion a/neu apeliadau myfyrwyr.

6.11 Gwneir pob ymdrech i leihau anghyfleustra wrth i recordio myfyrwyr gael ei wneud, fodd bynnag, mae angen ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd.

6.12 Mae pob Hawlfraint a Hawliau Eiddo Deallusol yn y deunydd a gyflwynir yn parhau heb eu newid gan y recordiad myfyrwyr.

6.13 Bydd unrhyw dorri'r polisi hwn yn destun Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol ar gyfer Myfyrwyr.

6.14 Mae canllawiau i fyfyrwyr ag anableddau, cyflyrau iechyd neu anawsterau dysgu penodol sy'n dymuno recordio darlithoedd wedi'u nodi yn Atodiad B.

## 7 Diogelu Data

7.1 Bydd unrhyw Ddata Personol a gedwir mewn cynnwys wedi'i recordio yn cael ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a phob cyfraith diogelu data berthnasol neu ddiwygiedig.

7.2 Rhaid i aelodau staff y brifysgol neu drydydd parti (yn cynnwys ond neb fod yn gyfyngedig i ymwelwyr) sy'n darparu addysgu i'w recordio:

- Ystyried a ellid strwythuro sesiynau fel bod trafodaethau sy'n debygol o gynnwys unrhyw gynnwys sensitif, neu gyfranogiad sylweddol gan y gynulleidfa fel sesiynau holi ac ateb wedi'u cynllunio ymlaen llaw, yn digwydd ar ddiwedd y sesiwn ar ôl i'r recordiad gael ei ddiffodd. Lle bo modd, ystyried ystafelloedd grŵp neu sianeli ar wahân nad ydynt wedi'u recordio ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys rhyngweithio myfyrwyr gan alluogi, er enghraifft, sleidiau darlith neu weminarau wedi'u recordio i fod ar gael ar wahân.
- Hysbysu'r rhai sy'n bresennol fod recordio yn digwydd. Gall hyn fod ar ffurf un neu ddau o'r canlynol, fel bo'n briodol ar sail anghenion hygyrchedd y gynulleidfa:
    - Gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr cyn y sesiwn, er enghraifft drwy e-bost neu fanylion ar y VLE.
    - Cyhoeddiad a wneir ar ddechrau'r sesiwn i hysbysu bod recordio yn digwydd.
- Gwneud myfyrwyr neu staff yn ymwybodol o bwy y gallant gysylltu ag ef yn y gyfadran os oes ganddynt bryder ynghylch cael eu cynnwys mewn unrhyw recordiad. E-bostiwch dîm Diogelu'r Brifysgol safeguarding@wrexham.ac.uk os oes gennych bryder ynghylch cael eich cynnwys mewn unrhyw recordiad.
- Os oes gan fyfyriwr bryder personol ynghylch cyhoeddi cynnwys wedi'i recordio, dylid ystyried y rhain cyn eu gwneud ar gael i eraill.
- Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data os yw unrhyw fynychwyr yn codi pryder neu gŵyn ynghylch diogelu data neu breifatrwydd (e-bost: dpo@wrexham.ac.uk).

## 8 Eiddo Deallusol

8.1 Atgoffir aelodau staff, oni bai bod rhai eithriadau a restrir yn eu cytundeb cyflogaeth yn berthnasol, mai'r Brifysgol sy'n berchen ar eiddo deallusol a grëir yn ystod cyflogaeth. Rhaid i aelodau staff gydymffurfio â'u cytundeb cyflogaeth, yn cynnwys mewn perthynas â chynnwys a ffrydiwyd yn fyw ac a recordiwyd. Cyfrifoldeb aelodau staff unigol yw sicrhau bod eu defnydd o ddeunydd sydd wedi'i ddiogelu gan hawlfraint trydydd parti o fewn addysgu, darlithoedd, dysgu a gweithgareddau yn deg ac yn rhesymol wrth ddibynnu ar eithriadau hawlfraint statudol dan gyfraith y DU (amddiffyniad cyfreithiol i honiad o dorri hawlfraint).

8.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod dibynnu ar eithriadau hawlfraint perthnasol megis delio teg at ddibenion darlunio ar gyfer cyfarwyddyd a delio teg at ddibenion dyfynnu, yn hanfodol ar gyfer addysgeg arferol yn y theatrau darlithio ffisegol a rhithwir. Dylai aelodau staff fod yn ymwybodol bod eithriadau o'r fath yn galluogi ailddefnyddio rhesymol o gynnwys sydd wedi'i ddiogelu gan hawlfraint trydydd parti - yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddyfyniadau testun, delweddau a chlipiau fideo mewn amgylchiadau nad ydynt yn gwrthdaro'n ormodol â buddiannau perchnogion hawlfraint neu 'ecsbloetio arferol' eu gwaith (e.e. y disgwyliad o godi ffïoedd atgynhyrchu am ffotograffiaeth stoc fasnachol).

8.3 Yng ngyd-destun addysgu anfasnachol a gyflwynir yn gydamserol neu'n anghydamserol drwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir diogel, wedi'i ddiogelu gan gyfrinair, sydd ar gael i fyfyrwyr y Brifysgol yn unig sydd wedi cofrestru'n ffurfiol ar raglen astudio y mae'r addysgu'n ymwneud â hi, mae'n annhebygol y bydd ailddefnyddio cynnwys sydd wedi'i ddiogelu gan hawlfraint trydydd parti heb drwydded yn torri hawliau cyn belled â:

- Bod cydnabyddiaeth ategol o'r awdur/crëwr neu'r teitl/ffynhonnell (ac eithrio lle byddai hyn yn amhosibl, er enghraifft oherwydd bod y gwaith yn ddienw);
- Ei fod yn cefnogi pwynt addysgu neu feirniadaeth, neu'n cael ei ddyfynnu at ddibenion penodol; a
- Nid yw'n ormodol, nac yn fwy nag sy'n angenrheidiol i wneud eich pwynt.

8.4 Ac eithrio gweithiau byr iawn na ellir eu rhannu a ddefnyddir dan yr amodau a bennir yn 8.3 uchod, ni ddylid recordio sgrinio gweithiau clyweledol cyfan o fewn recordiadau a grëwyd ar gyfer cyflwyno anghydamserol.

8.5 Lle gwahoddir cyfranwyr gwadd, yn cynnwys myfyrwyr, i addysgu neu fel arall fod yn rhan o gyflwyno sesiwn, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan yr unigolion hynny yn gyntaf. Cyfrifoldeb yr aelod staff sy'n cynnal y cyfrannwr/cyfranwyr gwadd yw cael y caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw hwn. Dylai copïau o'r caniatâd gael eu cadw gan y rheolwyr priodol am yr amser y mae'r recordiad ar gael.

8.6 Ni fydd y Brifysgol yn defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol nac offer digidol eraill i glonio llais a/neu ddelwedd o staff, myfyrwyr na siaradwyr gwadd.

## 9 Storio, Cadw ac Argaeledd Cynnwys

9.1 Bydd cynnwys wedi'i recordio yn destun amserlen gadw. Gweler y Polisi Rheoli Cofnodion ar WYou.

9.2 Ni ddylid gwneud recordiadau i'w defnyddio gan y cyhoedd, oni bai bod caniatâd penodol wedi'i roi gan y person neu'r personau a recordiwyd a bod cadarnhad wedi'i roi gan y Dirprwy Is-ganghellor yn unol â chymal 4.15

9.3 Bydd recordiadau ar gael trwy systemau cymeradwy'r Brifysgol i sicrhau mai dim ond aelodau staff a myfyrwyr awdurdodedig sy'n cael mynediad, ac ni ddylent fod ar gael ar unrhyw wefan gyhoeddus.

9.4 Dylai cynnwys wedi'i recordio neu wedi'i ffrydio'n fyw fod ar gael i'r gynulleidfa arfaethedig ar amser ac amlder sy'n bodloni gofynion/canlyniadau dysgu modiwl/rhaglen y cwrs. Os na fydd cynnwys ar gael pan ddisgwylir oherwydd amgylchiadau eithriadol annisgwyl, dylid cyfleu hyn i fyfyrwyr cyn gynted â phosibl.

## 10 Golygu a Thynnu'n Ôl

10.1 Mae gan yr aelod staff sy'n grëwr y recordiad yr hawl i olygu'r recordiad drwy dynnu rhannau ohono i amddiffyn unigolion neu mewn perthynas â materion yn ymwneud â diffyg cywirdeb, difenwi neu ddeunydd sy'n torri hawlfraint fel yr amlinellwyd yn faenorol yng nghymal 8. Nid yw'n ofyniad y bydd recordiadau'n cael eu golygu cyn cael eu cyhoeddi fel arall, ond os hoffai aelodau staff neu fyfyrwyr olygu recordiad dylent ofyn am hyn gan y crëwr.

10.2 Yn absenoldeb y crëwr, dylid gwneud y cais hwn yn 10.1 i Bennaeth Rheoli Busnes y Gyfadran. Ar ôl i recordiad gael ei gyhoeddi, gellir ei olygu o hyd at unrhyw ddiben rhesymol, ar yr amod bod yr aelod staff yn cyfleu'r rheswm dros y golygu'n ddigonol i gynulleidfa arfaethedig y recordiad hwnnw. Gall gweinyddwyr systemau hefyd olygu recordiadau ar unrhyw adeg lle mae rheswm cyfreithiol neu bolisi arall dros wneud hynny.

10.3 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu recordiad yn ôl ar unrhyw adeg os codir pryder oherwydd torri hawlfraint, diogelu data neu unrhyw fater cyfreithiol posibl arall neu ddatgeliad cyhoeddus o wybodaeth fasnachol sensitif a bod Cyfreithiwr y Brifysgol wedi adolygu'r pryder hwnnw.

## 11 Hygyrchedd

11.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol ac sy'n ystyriol o drawma a hynny o ran dyluniad a gweithrediad ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch er mwyn cael mynediad i'r weithdrefn hon, neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom i inform@wrexham.ac.uk.

## 12 Atodiad A

### 12.1 Canllawiau i staff - Recordio sesiynau a gweithgareddau addysgol gan fyfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu penodol.

12.1.1 Fel darparwr gwasanaethau addysgol, mae gan y Brifysgol dyletswyddau a chyfrifoldebau i fyfyrwyr anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cynnwys y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Os yw myfyriwr yn datgan anabledd i'r Brifysgol sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb, gallant geisio cyngor a chefnogaeth gan dîm Cynhwysiant y Brifysgol fel y gellir ystyried ac argymell unrhyw addasiadau rhesymol (a all gynnwys caniatâd i recordio sesiynau addysgol a gweithgareddau dysgu). Os oes gan y darlithydd reswm dilys a chyfiawn pam na roddir caniatâd i recordio, y darlithydd sy'n gyfrifol am ddarparu deunyddiau mewn fformat arall (h.y. trawsgrifiad sain o nodiadau darlith/taflenni manwl). Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynhwysiant inclusion@wrexham.ac.uk.

12.1.2 Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellid cymeradwyo recordio darlithoedd neu diwtorialau yn cynnwys y canlynol:

- Anawsterau symudedd sy'n atal cymryd nodiadau.
- Cyflyrau meddygol cronig sy'n ei gwneud hi'n anodd cynnal llawysgrifen hyd yn oed am gyfnodau byr.
- Myfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia.

### 12.2 Y Broses

12.2.1 Bydd aelodau staff perthnasol yn cael gwybod, drwy system E-Vision y Brifysgol, am fyfyrwyr sydd ag argymhellion i recordio darlithoedd a thiwtorialau fel rhan o'u haddasiadau rhesymol.

12.2.2 Tybir bod unrhyw wybodaeth y mae darlithydd Prifysgol yn ei chyfleu yn ystod darlith neu diwtorial, yn wybodaeth y mae gan unrhyw fyfyriwr hawl i gael cofnod ohoni, mewn rhyw fformat. Felly, dylid caniatáu i fyfyrwyr sydd angen derbyn gwybodaeth ar fformat sain recordio'r wybodaeth hon, oni bai bod rhesymau cyfiawn pam na fyddai hyn yn bosibl mewn amgylchiadau penodol.

12.2.3 Enghreifftiau lle efallai na fydd recordio yn briodol fyddai pan fydd gwybodaeth bersonol neu sensitif yn cael ei thrafod, fel mewn ymgynghoriad â chlaf neu gleient yn ystod lleoliadau. Yn yr achosion hyn, gellir rhoi caniatâd i recordio yn ôl disgresiwn y darparwr lleoliad ac yn unol â'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain.

12.2.4 Wrth gytuno i fyfyrwyr recordio darlithoedd neu diwtorialau, byddwn yn gofyn i fyfyrwyr arsylwi a chytuno i ofynion penodol. Gofynnir i fyfyrwyr:

- Lynu wrth yr holl ddarpariaethau yng nghanllawiau'r Brifysgol ar gyfer recordio darlithoedd.
- Recordio darlithoedd neu diwtorialau at eu defnydd astudio personol eu hunain yn unig.

- Stopio recordio os gofynnir iddynt wneud hynny gan ddarlithydd neu aelod arall o staff academaidd lle gallai gwybodaeth neu drafodaeth fod yn sensitif, yn breifat neu'n gyfrinachol.
- Deall eu bod wedi'u gwahardd rhag darlledu neu gyflenwi'r recordiad i unrhyw berson arall at ddibenion masnachol neu unrhyw ddibenion eraill, ac eithrio trawsgrifio.
- Deall nad ydynt yn caffael unrhyw hawliau eiddo deallusol yn y recordiad na'i gynnwys.
- Deall nad oes ganddynt ganiatâd i uwchlwytho recordiadau o staff a/neu fyfyrwyr eraill i offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i glonio cynnwys llais neu ddelwedd.
- Deall bod torri'r canllawiau yn groes i'r hawl i recordio gwybodaeth a fydd yn cael ei drin fel mater disgyblu/torri data difrifol a bydd caniatâd i recordio yn cael ei dynnu'n ôl.

12.2.5 Mae darlithwyr gwadd yn 'asiantiaid' y Brifysgol ac felly maent yn ddarostyngedig i'r un canllawiau a phrotocolau prifysgol â staff eraill.

12.2.6 Os na ystyrir ei bod yn bosibl i fyfyrwyr recordio sesiwn addysgol benodol, dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr am hyn ymhell ymlaen llaw. Mae'r ddyletswydd i sicrhau bod gan bob myfyriwr fynediad llawn i bob sesiwn yn parhau ac mewn unrhyw amgylchiadau lle na ystyrir ei bod yn bosibl i'r myfyriwr recordio'r ddarlith, dylid trafod dulliau eraill o alluogi hyn gyda'r myfyriwr(wyr) dan sylw.

12.2.7 Enghreifftiau o ddulliau amgen:

- Os yw myfyriwr yn gallu cael mynediad at ddeunydd ysgrifenedig, gallai opsiynau eraill gynnwys gwasanaethau cofnodwr neu ddarparu trawsgrifiad llawn o'r ddarlith (nid copïau o'r cyflwyniad ei hun yn unig).
- Os yw'n hanfodol i'r myfyriwr dderbyn gwybodaeth ar ffurf sain, gallai opsiynau gynnwys darparu'r trawsgrifiad llawn ar ffurf electronig (gan alluogi'r myfyriwr i ddefnyddio meddalwedd testun-llais, os ydynt yn defnyddio hyn) neu gael nodiadau darlith wedi'u harddweud a'u gwneud yn ffeil sain.
- Bydd gan fyfyrwyr unigol anghenion gwahanol ac efallai na fydd yr hyn a allai gael ei ystyried yn briodol fel addasiad i un myfyriwr fod yn addasiad addas i bob myfyriwr.
- Os oes unrhyw bryderon sylweddol, dylai'r darlithydd drafod y rhain, gyda'r myfyriwr a'r tîm Cynhwysiant. Dylai pob parti fod yn glir ynghylch pa ddarpariaethau sy'n cael eu gwneud, ymhell cyn y ddarlith ei hun.

# 13 Atodiad B

## 13.1 Canllawiau i fyfyrwyr ag anableddau, cyflyrau iechyd neu anawsterau dysgu penodol: recordio sesiynau a gweithgareddau addysgol

13.1.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei dyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gynt) i wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd neu anhawster dysgu penodol (megis dyslecsia)

13.1.2 Rydym wedi ymrwymo'n gryf i gyfle cyfartal a chefnogi myfyrwyr ag unrhyw ofynion hygyrchedd

13.1.3 Rhoddir caniatâd i chi recordio darlithoedd a thiwtorialau fel addasiad rhesymol ond wrth roi'r cytundeb hwn, mae angen i ni ofyn i chi arsylwi a chytuno i ofynion penodol

13.1.4 Mae'r gofynion hyn ar waith i sicrhau bod ystyriaethau cyfreithiol (megis hawlfraint neu ddiogelu data) a materion preifatrwydd, sensitifrwydd neu gyfrinachedd yn cael eu dilyn.

13.1.5 Sylwch na fyddwch yn caffael unrhyw hawliau eiddo deallusol yn y recordiad na'i gynnwys o gwbl ac fe'ch gwaherddir yn benodol rhag darlledu neu gyflenwi'r recordiad i drydydd parti, yn cynnwys offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, at elw masnachol neu ddibenion eraill, ac eithrio ar gyfer trawsgrifio.

13.1.6 Mae'n ofynnol i chi:

- Lynu wrth yr holl ddarpariaethau yn y canllawiau hyn.
- Recordio darlithoedd neu diwtorialau yn unig at eich defnydd astudio personol eich hun a rhoi’r gorau i recordio os gofynnir i chi wneud hynny gan aelod o staff y gwasanaethau academaidd neu broffesiynol (yn cynnwys darlithwyr gwadd), lla gallai gwybodaeth neu drafodaeth fod yn sensitif, yn breifat neu’n gyfrinachol.
- Sicrhau nad ydych yn pasio gwybodaeth rydych wedi’i recordio i unrhyw berson arall, ac eithrio at ddibenion trawsgrifio.
- Deall y byddai torri’r canllawiau hyn yn groes i’ch hawl i recordio digwyddiad dysgu neu addysgu yn yr ystafell ddosbarth; byddai hyn yn cael ei drin fel mater disgyblu difrifol dan y Rheoliadau Disgyblu Myfyrwyr a’r Polisïau Diogelu Data a byddai eich caniatâd i recordio yn cael ei dynnu’n ôl.